# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 12 Mawrth 2020

Amser: 09.03 - 11.10

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5983

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Llyr Gruffydd AC (Cadeirydd)<br>Alun Davies AC<br>Siân Gwenllian AC<br>Mike Hedges AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Nick Ramsay AC<br>Mark Reckless AC |
| Tystion: | Athro Kent Matthews, Ysgol Fusnes Caerdydd<br>Dr Long Zhou, Ysgol Fusnes Caerdydd<br>Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd<br>Anna Adams, Llywodraeth Cymru<br>Tom Nicholls, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Georgina Owen (Ail Glerc)<br>Christian Tipples (Ymchwilydd)<br>Gemma Gifford (Dirprwy Glerc) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r tystion i'r cyfarfod.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 2.1 PTN1 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd - Treth Tir Gwag - 3 Mawrth 2020

### 2.2 PTN2 - Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) - 4 Mawrth 2020

## 3 Effaith amrywiadau mewn treth incwm genedlaethol ac is-genedlaethol: Sesiwn dystiolaeth 4

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y tystion a ganlyn ar effaith amrywiadau mewn treth incwm genedlaethol ac is-genedlaethol: yr Athro Kent Matthews, athro bancio a chyllid Syr Julian Hodge, Ysgol Fusnes Caerdydd; a Dr Long Zhou, myfyriwr ymchwil, Ysgol Fusnes Caerdydd.

## 4 Effaith amrywiadau mewn treth incwm genedlaethol ac is-genedlaethol: Sesiwn dystiolaeth 5

4.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y tystion a ganlyn ar effaith amrywiadau mewn treth incwm genedlaethol ac is-genedlaethol: Rebecca Evans AC, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd; Anna Adams, dirprwy gyfarwyddwr, pennaeth polisi strategaeth treth ac ymgysylltu, Llywodraeth Cymru; a Tom Nicholls, cynghorydd economaidd, Llywodraeth Cymru.

4.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu manylion ynghylch nifer y rhai a gyflogir yn y sector cyhoeddus sy'n talu'r gyfradd uwch o dreth incwm yng Nghymru.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Effaith amrywiadau mewn treth incwm genedlaethol ac is-genedlaethol: Trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.